Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Adroddiad Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Hydref 2021

Rhagair

Hoffwn gyflwyno'r diweddariad diweddaraf hwn ar y gweithgarwch ymchwil ac arloesi yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

Wrth i ni symud i'r Hydref, rydym yn edrych ymlaen at gefnogi lansiad y Labordy Ymchwil ar gyfer Datblygu Cydrannau Gwaed.

Rydym yn cyflwyno ein cyfraniadau hefyd i gynhadledd Cymdeithas Trallwyso Gwaed Prydain. Mae'r gynhadledd hon ar flaen y gad o ran arferion trallwyso yn y DU. Roeddem yn gallu cynrychioli GIG Cymru mewn sawl maes gwahanol o arfer rhagorol.

Diolch i chi am ddarllen y diweddariad hwn ac, fel erioed, diolch i chi am eich rhodd a'ch cefnogaeth i Wasanaeth Gwaed Cymru.

Siân James
Arweinydd y Tîm Hwyluso Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
Gwasanaeth Gwaed Cymru

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb cyfredol o'r holl weithgarwch datblygu ymchwil ac arloesi arfaethedig, parhaus neu sydd wedi'i gwblhau o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae'r fersiwn hon o'r ddogfen wedi cael ei haddasu'n arbennig, fel y gall y rhoddwyr, y cleifion a'r cyhoedd weld y gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi maen nhw'n eu cefnogi drwy roi gwaed, bôn-gelloedd ac organau.

Lansio’r Labordy Ymchwil ar gyfer Datblygu Cydrannau Gwaed

Yr Hydref hwn, bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn lansio cyfleuster newydd. Bydd y **Labordy Ymchwil ar gyfer Datblygu Cydrannau Gwaed** yn rhoi'r cyfleusterau a'r gallu i ni wireddu ein huchelgais o fod yn ganolfan ragoriaeth mewn datblygu cydrannau gwaed.

Mae'r lansiad yn nodi buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud i ddarparu capasiti penodol i gyflawni gwaith o'r fath. Mae gofod gweithgynhyrchu wedi cael ei drawsnewid yn gyfleuster pwrpasol, ac mae offer o'r radd flaenaf wedi cael eu comisiynu. Bydd staff ffurfiol yn cael eu penodi yn 2021 hefyd, gyda nifer o swyddi newydd ac esblygol yn cael eu hychwanegu at y labordai.

Bydd y labordy'n cyflawni ystod eang o swyddogaethau. Bydd yn arwain y gwasanaeth ar weithredu newidiadau i reoliadau cydrannau. Bydd yn ymchwilio ac yn datblygu technolegau arloesol ar gyfer gweithgynhyrchu gwaed, yn ymchwilio i fethodolegau newydd, ac yn cynhyrchu cydrannau newydd hefyd.

Bydd y gwaith labordy yn gallu cynghori'r sefydliad hefyd ar sganio'r gorwel ac ar strategaethau posibl ar gyfer datblygu cydrannau yn y dyfodol.

Er bod hwn yn lansiad ffurfiol, mae gan y labordy hanes o lwyddiant yn barod. Mae wedi bod yn cyflwyno thema Cynnyrch Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gwasanaeth Gwaed Cymru ers peth amser erbyn hyn.



Gwasanaeth Gwaed yn

Cynhaliwyd cynhadledd Cymdeithas Trallwyso Gwaed Prydain (BBTS) 2021 yn rhithwir eleni. Daeth llawer o staff Gwasanaeth Gwaed Cymru i'r gynhadledd, ac fe wnaethom arddangos wyth poster hefyd. Rhoddodd y gynhadledd gyfle gwych i rannu rhai o'r gwaith Ymchwil, Datblygu ac Arloesi gwych sydd wedi cael ei gyhyrchu gan Wasanaeth Gwaed Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Mae gennym **14** o brosiectau agored

3
yn y thema Trawsblannu

Yn cynnwys trawsblaniadau organau solet a bôn-gelloedd, histogydnawsedd, imiwneneteg a chofrestri rhoddwyr

2
yn y thema Gofal Rhoddwyr ac Iechyd y Cyhoedd

Yn cynnwys recriwtio a chadw rhoddwyr, cymhwysedd a gofal a gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd

8
yn y thema Cynnyrch

Yn cynnwys cydrannau gwaed, sy'n cynnwys imiwnhematoleg, profi, gweithgynhyrchu cydrannau a chynnyrch, rheoli ansawdd, a gwerthuso offer a deunyddiau

1
yn y thema Therapïau

Yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â therapïau cellog a therapïau gwaed eraill

45 o staff yn cymryd rhan mewn ymchwil

Mae staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil GGC yn darparu cymorth gwasanaeth i ymchwil eraill, ac efallai y byddant yn gwneud gwaith ymchwil fel rhan o gymhwyster. Rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill ar draws y byd hefyd, ac yn gweithio gyda phrifysgolion a gwasanaethau gwaed rhyngwladol mewn meysydd diddordeb a rennir.

25 o gyhoeddiadau* sy'n cynnwys cyflwyniadau cynadleddau ac erthyglau cofnodolion

Mae GGC yn cyhoeddi mewn cyfnodolion ac yn cyflwyno mewn cynadleddau i rannu ein canfyddiadau ac adeiladu ein henw da o fewn y gymuned ymchwil. Mae cynhyrchu cyhoeddiadau yn rhoi cyfleoedd i'n staff ddatblygu eu sgiliau ac adeiladu enw da proffesiynol hefyd.

**yn y 12 mis dreigl ddiwethaf*

Cyhoeddiadau

Cyhoeddiadau effeithiol gan gydweithwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru a phobl o'r tu allan yn ystod y tri mis diwethaf.

Erthyglau Cofnodolion

Lessons learnt from syphilis-infected blood donors: a timely reminder of missed opportunities

Stuart Blackmore *in the journal* Sexually Transmitted Infections

Citation: Harvala H, Reynolds C, Blackmore S, Fabiana A, et al. (2021) Lessons learnt from syphilis-infected blood donors: a timely reminder of missed opportunities. *Sexually Transmitted Infections*. Published online first: 11 August 2021. doi: 10.1136/sextrans-2021-055034

BSHI / BTS Guidance on Crossmatching before Deceased Donor Kidney Transplantation

Tracey Rees *in the journal* International Journal of Immunogenetics

Citation: Peacock S, Briggs D, Rees T, et al. (2021). BSHI/BTS Guidance on Crossmatching before Deceased Donor Kidney Transplantation. *International Journal of Immunogenetics*, 00, 1– 8. https://doi.org/10.1111/iji.12558

Cyflwyniadau'r Gynhadledd

HEV Pool Testing Review at the Welsh Blood Service (Poster)

Ann Jones *at the conference* SHOT Symposium 2021 and
British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Verification of Patient Triplicate Tests in FMH Estimation by Flow Cytometry (Poster)

Lynne Porter *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Do deferred blood donors with low haemoglobin or low iron stores seek medical care? (Poster)

Sian James *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Platelet Concentrates for Neonates Suspended in 80:20 Ratio of Plasma to Platelet Additive Solution (Poster)

Christine Saunders *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Transfusion Based Patient Information – are we getting it right? (Poster)

Joanne Gregory *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Virtual SSA – interactive distance learning in Wales (Poster)

Alister Jones *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Sprinting Ahead – a new way of working for the Blood Health Team (Poster)

Alister Jones *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

A one-year review following implementation of a new policy and management process for the provision of HLA selected Platelets at the Welsh Blood Service (Poster)

Laura Williams *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Challenges of Platelet Refractoriness in the Highly Sensitised Patient (Poster)

Kim McShane *at the conference* British Blood Transfusion Society Annual Conference 2021

Establishing Serosurveillance of COVID-19 in Wales

Sian James *at the conference* 4th European Conference on Donor Care and Management

Mae'r ddogfen yn ddilys tan fis Chwefror 2021

Hoffem ddiolch i'r rhoddwyr gwaed, platennau a thrawsblannu sy'n gwneud popeth a wnawn yn bosibl

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service